Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penodi Is-lywydd

Dyddiad cau: 20 Hydref 2021, 18:00

Cynnwys

		Tudalen
Cyflwyno Cais		3
Atodiad A:	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	6
	Rôl y Llywydd	6
Atodiad B:	Y broses ddethol	11
Atodiad C:	Cefndir – Llyfrgell Genedlaethol Cymru	13

Cyflwyno cais

Diolch am eich diddordeb yn rôl Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hwn yn benodiad hollbwysig, a wnaed gan y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip.

Fel Is-lywydd gallwch ddylanwadu ar gyfeiriad strategol y Llyfrgell a chyfrannu at bolisïau a fydd o fudd i'r Llyfrgell yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r atodiadau atodedig yn rhoi mwy o fanylion am rôl, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Llyfrgell, a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: Penodiadau Cyhoeddus - (tal.net)

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ar 'Gwneud cais' yng nghornel chwith gwaelod y dudalen. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Mae hon yn elfen hollbwysig o'ch cais a dyma'ch cyfle i:

- Amlinellu eich diddordeb yn y rôl;
- Dangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person a'r meini prawf hanfodol; ac
- Amlinellu sut y gallech gyfrannu at waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Dylech anelu at gyflwyno enghreifftiau manwl sy'n dangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl o ran cyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen – efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn.

Curriculum Vitae (CV)
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion byr am eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'r dyddiadau y gwnaethoch gyflawni'r rôl hon, a manylion unrhyw rolau perthnasol yn y gorffennol i'r penodiad hwn. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol. **Peidiwch â chynnwys rhestrau helaeth o gyhoeddiadau neu weithgarwch ymchwil.**

Amserlen fras

Dyddiad cau	20 Hydref 2021
Rhestr Fer	Tachwedd 2021
Cyfweliadau	Rhagfyr 2021
Penodiad	Ionawr 2022

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)' yn 2020. Nod y strategaeth hon yw gwneud Cymru'n esiampl o ran ailddosbarthu cyfalaf diwylliannol a meithrin holl ddoniau Cymru, drwy adlewyrchu Cymru wrth redeg Cymru.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os hoffech gyfweliad gwarantedig, cysylltwch â Penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau
Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am rôl Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cysylltwch â Nicola Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru, Nicola.Guy@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r system ymgeisio "Penodi" ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau (DesgGymorthCydwasanaethau@llyw.cymru), 03000 255454.

Atodiad A

Llyfrgell Genedlaethol Cymru a rôl Is-lywydd

Diben Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw gwneud ein diwylliant a'n treftadaeth amrywiol yn hygyrch i bawb i ddysgu, ymchwilio a mwynhau.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, bydd y Llyfrgell yn derbyn £12.8m mewn cyllid refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn 2021-2022. Mae'r Llyfrgell hefyd yn gorff Siarter Frenhinol ac yn elusen annibynnol gofrestredig. Goruchwylir ei reolaeth a'i weithrediadau gan Fwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae'r Llyfrgell yn tanysgrifio i bolisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Iaith Gymraeg 2010 ac mae'n integreiddio ei gwaith i gefnogi pob un o'r saith nod llesiant yn ogystal â phum elfen lywodraethu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

I gael rhagor o fanylion am ddiben, gweledigaeth ac amcanion y Llyfrgell, ewch i: https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/dogfennaeth_gorfforaethol/2017-2021_Cynllun_Strategol_TERFYNOL.pdf

Rôl yr Is-lywydd

• Bydd yr Is-lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd i arwain cyfeiriad cyffredinol y Bwrdd ac yn ymgymryd â rolau'r Llywydd os yw'n absennol.

• Cadeirio Pwyllgorau Llyfrgell eraill a/neu yn absenoldeb y Cadeirydd penodedig.

• Ynghyd â'r Llywydd, gweithredu fel prif bwynt cyswllt rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, a Phrif Chwip a swyddogion y Llywodraeth.

• Cefnogi'r Llywydd fel sy'n ofynnol wrth gysylltu â swyddogion eraill ac aelodau'r Bwrdd, a chydag uwch dîm gweithredol y Llyfrgell. Bydd gan yr Is-lywydd rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran craffu, herio a chefnogi'r weithrediaeth i gyflawni nodau, amcanion a thargedau'r Llyfrgell.

• Cymryd rhan yn y broses gynllunio gorfforaethol, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau cyllideb blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgareddau corfforaethol;

• Dirprwyo ar ran y Llywydd fel sy'n ofynnol wrth gynrychioli'r Llyfrgell wrth ddelio â'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

• Mynd ati i hyrwyddo manteision y sector treftadaeth ddiwylliannol amrywiol yng Nghymru a thu hwnt.

• Bod â gweledigaeth glir o ran sut y gall y Llyfrgell barhau i gyfrannu fel prif ddarparwr polisi treftadaeth ddiwylliannol y Llywodraeth

• Deall sut mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu.

• Cymryd rhan weithredol mewn annog aelodau bwrdd a'r genhedlaeth nesaf o ymddiriedolwyr.

• Sicrhau bod y Llyfrgell yn cael gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau, rheoleidd-dra ac eiddo.

• Gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran cywirdeb a chyllid cyhoeddus.

• Bod yn wleidyddol annibynnol.

• Meddu ar ddealltwriaeth ac ymrwymiad clir i "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Nolan.

Manyleb y Person - Dymunnol

Rydym yn chwilio am rywun sy'n:

- dangos dealltwriaeth, ymrwymiad, a brwdfrydedd dros waith y Llyfrgell ac ar gyfer sector diwylliannol Cymru;
- ymwybyddiaeth o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru a sut maent yn dylanwadu ar waith y Llyfrgell a'r sector diwylliant yn gyffredinol;
- meddu ar sgiliau arwain helaeth a phrofiad o sbarduno newid;
- ymrwymo i faterion cydraddoldeb ac i herio arferion gwahaniaethol;
- yn ymrwymo i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life; ac
- yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd y Llyfrgell yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Manyleb y Person - Hanfodol:

- Yn dangos ymrwymiad i werthoedd a gweledigaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gwerthfawrogiad o'i rôl a'i phwrpas fel sefydliad cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys y cyd-destunau diwylliannol, dysgu, iechyd a lles, economaidd a chymdeithasol-wleidyddol y mae'n gweithredu ynddynt; a dealltwriaeth o'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Yn gallu dangos sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid cryf, gan gynnwys sgiliau llysgenhadol;
- Yn ymrwymo i gynyddu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb, gan nodi profiad perthnasol i ddatblygu Bwrdd cynhwysol ac amrywiol;
- Yn meddu ar brofiad o ddatblygu partneriaethau strategol, a gweithgarwch allgymorth ac ymgysylltu a fydd yn llywio'r agenda o sicrhau bod y Llyfrgell yn gwasanaethu ac yn cynrychioli cymunedau a rhanbarthau amrywiol Cymru;
- Yn dangos sgiliau arwain uwch a'r gallu i ddarparu cymorth a her effeithiol i sefydliad uchel ei broffil;

- Yn dangos y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol;
- Yn dangos dealltwriaeth drylwyr o lywodraethu da;
- Yn dangos craffter busnes a masnachol a phrofiad o weithgareddau cynhyrchu incwm (gan gynnwys codi arian);
- Yn meddu ar brofiad o weithredu ar lefel uwch mewn sefydliad cymhleth, amlddisgyblaethol.

Sut bydd y meini prawf dymunol a hanfodol yn cael eu hasesu?

Manyleb / Meini Prawf	Ceisiadau	Cyfweliad
Dealltwriaeth, ymrwymiad, a brwdfrydedd dros waith y Llyfrgell ac ar gyfer sector diwylliannol Cymru	✔	✔
Ymwybyddiaeth o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru a sut maent yn dylanwadu ar waith y Llyfrgell a'r sector diwylliant yn gyffredinol		✔
Sgiliau arwain helaeth a phrofiad o sbarduno newid	✔	
Ymrwymiad i faterion cydraddoldeb ac i herio arferion gwahaniaethol;	✔	✔
Ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan	✔	
Ymrwymiad i werthoedd a gweledigaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gwerthfawrogiad o'i rôl a'i phwrpas fel sefydliad cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys y cyd-destunau diwylliannol, dysgu, iechyd a lles, economaidd a chymdeithasol-wleidyddol y mae'n gweithredu ynddynt; a dealltwriaeth o'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	✔	✔
Tystiolaeth o sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid cryf, gan gynnwys sgiliau llysgenhadol		✔
Wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb, gan nodi profiad perthnasol i ddatblygu Bwrdd cynhwysol ac amrywiol	✔	✔
Profiad o ddatblygu partneriaethau strategol, a gweithgarwch allgymorth ac ymgysylltu a fydd yn llywio'r agenda o sicrhau bod y Llyfrgell yn	✔	✔

gwasanaethu ac yn cynrychioli cymunedau a rhanbarthau amrywiol Cymru		
Sgiliau arwain uwch a'r gallu i ddarparu cymorth a her effeithiol i sefydliad proffil uchel	✔	
Y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol	✔	✔
Dealltwriaeth drylwyr o lywodraethu da	✔	
Craffter busnes a masnachol a phrofiad o weithgareddau cynhyrchu incwm (gan gynnwys codi arian)	✔	
Profiad o weithredu ar lefel uwch mewn sefydliad cymhleth, amlddisgyblaethol.	✔	

Lleoliad
Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd yn ofynnol i'r Is-lywydd deithio i gyfarfodydd a digwyddiadau.

Ymrwymiad Amser a Chyfarfodydd Bwrdd
Yr ymrwymiad amser ar gyfer rôl yr Is-lywydd yw hyd at 18 diwrnod y flwyddyn sy'n cynnwys bod yn bresennol mewn 6 cyfarfod y flwyddyn.

Telerau Penodi
Bydd y penodiad yn cael ei wneud gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip ar ran Llywodraeth Cymru a bydd am gyfnod o bedair blynedd.

Sgiliau yn y Gymraeg
Mae swydd yr Is-lywydd yn swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, at y lefel a nodir isod:

Deall – gall ddeall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd.
Darllen – gall ddarllen a deall deunydd syml ar bynciau bob dydd
Siarad – gall siarad mewn sgyrsiau syml yn gysylltiedig â'r gwaith
Ysgrifennu – dim sgiliau.

Tâl
Mae rôl yr Is-lywydd yn ddi-dal ar hyn o bryd. Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill a allai godi wrth gyflawni'r rôl oddi wrth y Llyfrgell.

Dyddiad Dechrau'r Penodiad Disgwyliedig: Ionawr/Chwefror 2022

Cymorth i Aelodau Anabl y Bwrdd
Lle bo hynny'n briodol, gwneir pob addasiad rhesymol i alluogi'r aelodau gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais
Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

O dan ddarpariaethau Siarter Frenhinol 2006, nid yw'r rhai a fu'n Ymddiriedolwr y Llyfrgell o'r blaen yn gymwys i wneud cais nes bod 4 blynedd wedi mynd heibio ers diwedd eu tymor.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn Llywydd y Llyfrgell yn eich anghymwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made

Gwrthdaro Buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd wedi'i sifftio'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i gyfryngau cymdeithasol a chwiliadau ar y Rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Llywodraethu.
https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

Atodiad B

Y broses ddethol

1. Bydd y panel asesu yn asesu ceisiadau ymgeiswyr, CVs a datganiadau personol i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno sesiwn rhanddeiliaid ac yna i gyfweliad. Yn ystod y cam sifftio cychwynnol, bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar y wybodaeth a ddarperir gennych yn eich cais, CV a datganiad i benderfynu a ydych yn symud ymlaen i gam nesaf y broses. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi manyleb y person a sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

2. Bydd y panel asesu yn cynnwys:

   Nicola Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru
   Craig Stephenson, Uwch Aelod Annibynnol
   Aled Eirug, Aelod Annibynnol
   Marian Wyn Jones, Aelod Annibynnol

3. Yn amodol ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gall eich cais gael ei roi ar “y rhestr hir” cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r panel asesu i'w ystyried. Dylech gofio, yn yr achos hwn, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel dethol cyfan.

4. Rydym yn rhagweld y bydd y panel, erbyn diwedd mis Hydref 2021, wedi penderfynu pwy fydd ar y rhestr fer ac yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2021**.**

5. Bydd y panel yn rhoi’r ymgeiswyr cryfaf ar y rhestr fer, y rhai sydd wedi dangos eu bod yn bodloni manyleb y person orau a'r meini prawf hanfodol fel y'u nodir yn y pecyn hwn. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a’ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

   Os ydych ar y rhestr fer ac nad yw'r dyddiadau cyfweld eisoes wedi'u darparu yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn anelu at roi cymaint o rybudd ag y gallwn i chi. Efallai na fydd yn bosibl ail-drefnu dyddiadau cyfweliadau oherwydd mae’n dibynnu ar bryd fydd y panel ar gael a chyfyngiadau amser yr amserlen benodi.

   Fe gewch e-bost gan y system Penodi i roi gwybod ichi a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

6. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a’ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

7. Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Dirprwy Weinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall

y Dirprwy Weinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd yr ymgeiswyr a gaiff eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses benodi.

8. Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y sifft neu yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion ynghylch pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais.

Ymholiadau

9. Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn hollol fodlon

10. Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Atodiad C

Llyfrgell Genedlaethol Cymru - cefndir

Y Llyfrgell Genedlaethol yw llyfrgell ac archifdy pwysicaf Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth ac yn drysordy enfawr ar bob pwnc, sydd ar gael am ddim i bawb, ac yn storfa fyw o ddiwylliannau cofnodedig Cymru. Mewn gwirionedd, mae gan y Llyfrgell ddau ddimensiwn – adeilad ffisegol gwych yn Aberystwyth sy'n gartref i'r casgliadau print, llawysgrif, gweledol a clyweledol, a llyfrgell ar-lein sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd.

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ar 9 Mawrth 1907. Rhoddwyd Siarteri Atodol yn 1911 ac yn 1978, a ddiwygiodd y cyfansoddiad ryw ychydig. Ar 19 Gorffennaf 2006 rhoddwyd Siarter atodol newydd gan y Frenhines Elizabeth II. Newidiodd Siarter Atodol 2006 y cyfansoddiad a llywodraethiant y Llyfrgell yn sylweddol, gan gydnabod datganoliad y Llywodraeth o San Steffan i Gymru. Er bod gan y Llyfrgell Lys Llywodraethwyr a Chyngor o'r blaen, mae ganddo Fwrdd o Ymddiriedolwyr erbyn hyn.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn elusen gofrestredig (rhif cofrestredig: 525775) ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Felly, rhaid iddi weithredu fel: (a) sefydliad Siarter Frenhinol ac Elusen Gofrestredig a (b) corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r natur ddeublyg hon yn llywodraethu sut y mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei rôl a'i rhwymedigaethau, ac mae'n gofyn am gydbwysedd gofalus rhwng mynd ar drywydd a chyflawni (a) 'nodau' ei Siarter a'i statws Elusennol, sy'n adlewyrchu ei diben sylfaenol, a (b) egwyddorion llywodraethiant hyd braich. Mae dogfen Fframwaith a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgell, yn nodi manylion y telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth grant i'r Llyfrgell oddi tanynt.

Ar hyn o bryd mae'r Llyfrgell yn cyflogi 235 (216 cyfwerth ag amser llawn (FTE)) o aelodau staff. Yn 2021-22 bydd yn derbyn £12.8 mewn refeniw a £3.6m o gyfalaf mewn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Prif 'nod' y Llyfrgell, fel y'i mynegwyd yn Siarter Atodol 2006 yw:

Casglu, cadw a rhoi mynediad i bob math a ffurf ar wybodaeth a gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.

Caiff cyfrifoldebau a gweithgareddau cysylltiedig y Llyfrgell eu mynegi mewn pum 'swyddogaeth graidd', ac mae gan bob un ohonynt sawl agwedd:

- casglu;
- cadw;
- rhoi mynediad a gwybodaeth;
- rhoi cyhoeddusrwydd a dehongli; a

- chydweithio proffesiynol (yn enwedig gyda llyfrgelloedd ac archifdai ledled Cymru, a hefyd Cyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru).

Wrth wraidd y Llyfrgell mae ei chasgliadau cyfoethog ac amrywiol, y mae rhai ohonynt wedi'u 'harysgrifio' yng nghofrestr Cof y Byd UNESCO:

- gweithiau printiedig: llyfrau, cyfnodolion, papurau newydd a deunydd printiedig arall sy'n cyfateb i tua 6m o gyfrolau. Maent yn llyfrgell 'adneuon cyfreithiol' (un o ddim ond chwech yn y DU ac Iwerddon) ac maent yn casglu cyfran uchel o holl gyhoeddiadau printiedig y DU ac Iwerddon, y mae rhai ohonynt bellach mewn fformatau electronig;
- llawysgrifau: 30,000 o eitemau, yr hynaf yn dyddio o 113 AD, ac yn cynnwys llenyddiaeth gynharaf Cymru a thestunau Prydeinig ac Ewropeaidd cynnar;
- archifau: 15km, 2,500 o gasgliadau, gan gynnwys Archif Wleidyddol Cymru, cofnodion ystadau, cofnodion y Llys Sesiynau Mawr a'r Eglwys yng Nghymru, pob ewyllys a brofwyd yn esgobaethau Cymru cyn 1858, papurau llenyddol modern ac archifau sefydliadau a busnesau Cymru;
- mapiau: dros 1.5m, a miloedd o atlasau;
- darluniau: 50,000 o weithiau yn dogfennu Cymru, yn bennaf drwy dirweddau a phortreadau;
- ffotograffau: 950,000 o brintiau, negatifau a thryloywluniau - y casgliad mwyaf yng Nghymru;
- microffurfiau: e.e. papurau newydd, archifau a ffynonellau hanes teuluol;
- sain a delweddau symudol: 7m troedfedd o ffilm, 300,000 awr o fideo, 250,000 awr o recordiadau sain, 200,000 o eitemau o Archif ITV Cymru, a miloedd o gofnodion a thapiau, i gyd yn cael eu cynnal gan Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru;
- deunydd electronig: miliynau o wrthrychau digidol, gan gynnwys CD-ROMs, e-lyfrau, e-gylchgronau, gwefannau, archifau electronig ac eitemau wedi'u digideiddio.
- ac yn 2021 bydd sefydlu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol yn rhoi cyfrwng effeithiol i'r Llyfrgell Genedlaethol ymestyn mynediad cyhoeddus i'w harchif gyfoethog o ddelweddau gweledol.